

**Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin  
2018-2033**

**Arfarniad Cynaliadwyedd  
Canllaw i gynigwyr safleoedd ar gyfer datblygu.  
Beth ddylid cyflwyno i'r Cyngor.**

**Ionawr 2020**

## 1.0 Diben y canllaw hwn

Bwriad y canllaw hwn yw helpu cynigwyr safleoedd ar gyfer datblygu wrth gyflwyno sylwadau i'r CDLI Diwygiedig Adneuo, ac mae'n berthnasol i unrhyw berchennog tir neu gynrychiolydd perchennog tir, megis:

- aelodau o'r cyhoedd;
- datblygwyr;
- gwerthwyr tai;
- cynllunwyr ymgynghorol neu debyg; neu
- berchenogion tir neu gynrychiolwyr eraill.

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig Sir Gaerfyrddin yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i fod yn gynllun datblygu newydd ar gyfer y Sir, ac mae'n disodli'r Cynllun Datblygu Lleol presennol a fabwysiadwyd. Mae'r CDLI yn cynnwys amrywiaeth o bolisiâu ar gyfer hyrwyddo datblygu cynaliadwy, ac fe'i hategir gan Arfarniad Cynaliadwyedd.

Mae'r CDLI eisoes wedi cymryd cannoedd o safleoedd i ystyriaeth (yn arbennig drwy'r broses safleoedd ymgeisio), ac mae'r Cyngor wedi eu hadolygu hwy a'u hamrywiol briodoleddau i gael detholiad o safleoedd i'w cynnwys yn y CDLI Adneuo. Fodd bynnag, gellir cyflwyno safleoedd i'w hystyried o hyd, a nod y ddogfen hon yw sicrhau bod pob safle'n cael ei gymharu ar sail 'tebyg am debyg'.

Bydd y Cyngor yn ystyried yr holl sylwadau a wnaed yn briodol (gan gynnwys sylwadau sy'n benodol i safle). Byddant hefyd ar gael i'r Arolygydd Cynllunio Annibynnol.

Ar gam adneuo'r CDLI Diwygiedig, mae cyfle i'r holl randdeiliaid roi sylwadau ar y polisiâu a'r safleoedd arfaethedig; a chyflwyno sylwadau yn gofyn am newid ffiniau dyraniadau, neu gynnig dileu neu ychwanegu safleoedd newydd.

Dylai sylwadau a wneir gael eu hategu gan resymeg cynllunio a dylent fod yn unol â fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd y Cyngor. Lle y bo'n briodol, bydd angen i safleoedd a gynigir mewn ymateb i'r cam adneuo gyflwyno Arfarniad Cynaliadwyedd yn seiliedig ar fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd y Cyngor, er mwyn sicrhau y gellir ystyried safleoedd o'r fath drwy'r broses archwilio, gan sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol. Ni fydd angen Arfarniad Cynaliadwyedd ar safleoedd sydd wedi'u cyflwyno'n flaenorol ar y cam safle ymgeisio, ac sydd wedi symud ymlaen heibio i gam 2b y cam asesu safleoedd. Edrychwch ar y Tabl Asesu Safleoedd Adneuo i gyfeirio ato ymhellach.

**Mae'r Cyngor yn cynghori'n gryf, wrth ymateb i'r CDLI Adneuo, y dylai unrhyw safle(oedd) newydd perthnasol a gynigir gynnwys Arfarniad Cynaliadwyedd (sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol). Nid yw safle nad yw'n destun Arfarniad Cynaliadwyedd yn debygol o gael ei ystyried yn addas i'w ddyrannu yn y cynllun<sup>1</sup>.**

**Safleoedd perthnasol** - Ni fydd yn ofynnol i safleoedd tai â llai na 5 annedd neu safleoedd cyflogaeth sy'n llai na 1000 metr sgwâr gwblhau a chyflwyno Arfarniad Cynaliadwyedd oni ofynnir iddynt wneud hynny wedyn.

Er mwyn cynorthwyo cynigwyr safleoedd wrth gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Pecyn Cymorth Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'r pecyn cymorth hwn wedi cael ei ddefnyddio gan Gyngor Sir Gaerfyrddin i asesu pob safle posibl, er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu a fydd yn darparu sail glir ar gyfer gwneud

---

<sup>1</sup> Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Drafft. Argraffiad 3. Llywodraeth Cymru. 2019.

penderfyniadau. Dylid cyfeirio'n llawn hefyd at y Fethodoleg Asesu Safleoedd wrth gwblhau'r Pecyn Cymorth Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Dylid nodi bod y cyfrifoldeb ar y cynigwyr i fodloni eu hunain eu bod wedi bodloni'r gofynion o ran hyrwyddo eu safleoedd.

## 2.0 Gwybodaeth Gefndirol i'w chyflwyno

Yn rhan o sylw i'r CDLI Adneuo, bydd angen rhywfaint o wybodaeth gefndirol er mwyn deall cyd-destun safle. Yn hyn o beth, dylid cyfeirio at y ffurflen sylwadau a'r Nodyn Cyfarwyddyd sy'n cyd-fynd â hi. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys:

- Map/cynllun o ffin y safle
- Cyfeirnod y safle (lle bo'n berthnasol)
- Enw a chyfeiriad y safle
- Arwynebedd y safle mewn hectarau (ha)
- Defnydd arfaethedig y safle

Os yw'r cynnig yn ymwneud â safle ymgeisio nad yw wedi'i gynnwys yn y CDLI adneuo drafft, yna gellir cyfeirio at rif/cyfeirnod y safle ymgeisio. Fodd bynnag, bydd angen cyflwyno Arfarniad Cynaliadwyedd o hyd – ynghyd ag unrhyw wybodaeth bellach, os oedd wedi methu cyn cam 2b y Fethodoleg Asesu Safleoedd.

### 3.0 Ffynonellau Data

Cwestiwn	Ffynhonnell Data	Amcan(ion) Perthnasol yr Arfarniad Cynaliadwyedd	Colofn Wag ar gyfer Sylwadau (Mae croeso ichi ei datgysylltu a'i chwblhau ar gyfer eich safle) Mae fformatau eraill yn dderbyniol
C1. A yw'r safle'n gydnaws â lleoliad twf yn y dyfodol a gyflwynir yn y CDLI Adneuo?	CDLI Adneuo	SA1	
C4. A yw'r safle wedi'i leoli mewn parth lle ceir perygl o lifogydd fel y'i nodir ar Fapiau Cyngor Datblygu TAN15? (Parth C1 neu C2)	<p>Gwybodaeth gefndirol:  <a href="https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/advice-for-developers/development-and-flood-risk/?lang=cy">https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/advice-for-developers/development-and-flood-risk/?lang=cy</a></p> <p>Mapiau:  <a href="https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Html5Viewer/Index.html?configBase=https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Geocortex/Essentials/REST/sites/Flood_Risk/viewers/Flood_Risk/virtualdirectory/Resources/Config/Default&amp;layerTheme=2">https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Html5Viewer/Index.html?configBase=https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Geocortex/Essentials/REST/sites/Flood_Risk/viewers/Flood_Risk/virtualdirectory/Resources/Config/Default&amp;layerTheme=2</a></p> <p>Cliciwch  a chwilio am:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>TAN15 - Parth C1</li> <li>TAN15 - Parth C2</li> </ul>	SA4, SA5	
C5. A yw'r safle wedi'i leoli o fewn neu'n union wrth ymyl unrhyw safleoedd sydd wedi'u dynodi am bwysigrwydd i gadwraeth natur?	<p>Mapiau Cyfyngiadau'r CDLI:  <a href="https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/carldpconstraints">https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/carldpconstraints</a></p> <p>Y safleoedd sydd i'w nodi yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)</li> <li>Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)</li> <li>Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)</li> </ul>	SA2	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG)</li> <li>• Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNL)</li> <li>• Tir comin neu faes pentref cofrestredig</li> </ul>		
C6. A yw'r safle wedi'i leoli o fewn neu'n union wrth ymyl unrhyw Henebion Cofrestredig?	Mapiau Cyfyngiadau'r CDLI: <a href="https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/carldpconstraints">https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/carldpconstraints</a>	SA8	
C8. A fyddai datblygu'r safle'n cael effaith niweidiol ar gymeriad ac amgylchiadau'r anheddiad neu ei nodweddion?	Dylid cyfeirio'n llawn at Fethodoleg Asesu Safleoedd y CDLI, sydd ar gael yma: <a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk</a>	SA8 SA9	
C9. A fydd y cynnig yn cynnwys aildefnyddio tir a/neu adeiladau addas a ddatblygwyd yn flaenorol?	Dylid cyfeirio'n llawn at Fethodoleg Asesu Safleoedd y CDLI, sydd ar gael yma: <a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk</a>	SA9, SA7	
C12 A oes unrhyw faterion sylweddol ar y briffordd wedi'u nodi ar sail tystiolaeth mewn perthynas â'r safle?	Dylid cyfeirio'n llawn at Fethodoleg Asesu Safleoedd y CDLI, sydd ar gael yma: <a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk</a>	SA3	
C13 A oes gan y safle fynediad addas i drafnidiaeth gyhoeddus a/neu lwybr teithio llesol?	Mapiau Cyfyngiadau'r CDLI: <a href="https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/carldpconstraints">https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/carldpconstraints</a>	SA3, SA4, SA6, SA12, SA13, SA15	
C14 A oes gan y safle fynediad i lecynnau gwyrdd/hamdden/cyfleusterau hamdden sydd o fewn pellter rhesymol?	Mapiau Cynigion y CDLI: <a href="https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/carldpprop">https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/carldpprop</a>	SA12, SA15	
C15 A yw'r safle o fewn pellter rhesymol i'r canlynol: (a) Darpariaeth cyflogaeth	Dylid cyfeirio'n llawn at Fethodoleg Asesu Safleoedd y CDLI, sydd ar gael yma:	SA6, SA10, SA14, SA15	

(b) Darpariaeth manwerthu (c) Gwasanaethau a chyfleusterau eraill	<a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk</a>		
C16 A yw'r safle o fewn pellter rhesymol i gyfleusterau addysg?	Dylid cyfeirio'n llawn at Fethodoleg Asesu Safleoedd y CDLI, sydd ar gael yma: <a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk</a>	SA13	
C17 A yw'r safle wedi'i leoli o fewn neu wrth ymyl parth clustogi mwynau?	Mapiau Cyfyngiadau'r CDLI: <a href="https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/carlidpconstraints">https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/carlidpconstraints</a>	SA6	
C18 A yw'r safle o fewn neu'n union wrth ymyl ardal rheoli ansawdd aer?	Mapiau Cyfyngiadau'r CDLI: <a href="https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/carlidpconstraints">https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/carlidpconstraints</a>	SA3	
C19 A yw'r safle yn cynnwys pridd carbon uchel e.e. mawn?	Gellir dod o hyd i fap o adnoddau mawn yma: <a href="https://www.bgs.ac.uk/mineralsuk/search/home.html">https://www.bgs.ac.uk/mineralsuk/search/home.html</a>	SA7	
C20 A yw'r safle'n cynnwys tir amaethyddol o ansawdd uchel?	Mapiau: <a href="https://llyw.cymru/categori/C3%AFau-tir-amaethyddol?_ga=2.126091533.1869965629.1587375462-1880823692.1548865805">https://llyw.cymru/categori/C3%AFau-tir-amaethyddol?_ga=2.126091533.1869965629.1587375462-1880823692.1548865805</a> Cliciwch  a chwilio am: <ul style="list-style-type: none"> <li>Dosbarthiad Rhagfynegiadol Tir Amaethyddol</li> </ul>	SA7	
C21 A oes unrhyw bryderon sylweddol wedi'u nodi yn yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd - Cam 1 a allai effeithio ar gyflawni'r safle?	Gellir cyrchu Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd - Cam 1 yr holl safleoedd ymgeisio yma: <a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/datblygu-sylfaen-o-dystiolaeth/#.Xh2ThuS7ly8">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/datblygu-sylfaen-o-dystiolaeth/#.Xh2ThuS7ly8</a>	SA4, SA5	
C22 A oes cysylltiad dŵr ar gael ar y safle?	Dylid cyfeirio'n llawn at Fethodoleg Asesu Safleoedd y CDLI, sydd ar gael yma:	SA5	

	<a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk</a>		
C23 A oes gan y safle gysylltiad carthffosiaeth addas?	Dylid cyfeirio'n llawn at Fethodoleg Asesu Safleoedd y CDLI, sydd ar gael yma: <a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk</a>	SA5	
C25 A oes gan leoliad a/neu faint y safle y potensial i gael effaith andwyol ar y Gymraeg?	Dylid cyfeirio'n llawn at Fethodoleg Asesu Safleoedd y CDLI, sydd ar gael yma: <a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaeth-aur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/safleoedd-ymgeisio/#.Xp6pMndFyUk</a>	SA11	